**Wedi'r Pasg**

## Gweddi am Agor ein Bywydau

Agor ni
Dduw Cariadus,
agor ein calonnau
fel y gallwn deimlo anadl dy
Ysbryd yn chwarae ynom,
agor ein dyrnau
fel y gallwn estyn llaw i'n
gilydd, a chyffwrdd ac iacháu;
agor ein gwefusau
fel y gallwn ddrachtio
mwynder a rhyfeddod bywyd,
agor ein clustiau
fel y gallwn glywed dy ddioddefaint
di yn ein creulondeb ni;
agor ein llygaid
fel y gallwn weld Crist mewn
cyfaill a dieithryn.
Anadla dy Ysbryd i mewn i ni
a chyffwrdd ein bywyd â
bywyd Crist.
Amen.

***Yr Esgob Helder Camara***